Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.
(Ioan 3:16)

Dyma un o'r adnodau mwyaf adnabyddus o'r holl Feibl. Mae'n hoff adnod i lawer o saint yr oesoedd. Yn wir, dwi wedi gweld y cyfeiriad 'Ioan 3.16' ar faneri yn y dorf mewn gêm Cwpan y Byd pêl-droed, ar bont rheilffordd fel graffiti, ac ar gae mewn cerrig. Nid rhyfedd poblogrwydd yr ymadrodd gan fod y geiriau'n sôn am gariad anfeidrol Duw.

Cariad mawr

Mae'r gair 'gymaint' yn y cyfieithiad Cymraeg newydd yn cyfleu mawredd difesur cariad Duw yn anfon Crist i'r byd. Mae llyfr Datguddiad yn sôn am **"yr Oen a laddwyd er seiliad y byd"** sydd yn ein hatgoffa fod y cariad yma'n mynd nôl yn bell iawn, ac mae epistol Ioan yn dweud ei fod yn mynd ymlaen i Fethlehem a Chalfaria: **"Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef. Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau"** (1 Ioan 4:9-10)**.**

Fe'n carodd cyn ein bod,
a'i briod Fab a roes,
yn ôl amodau hen y llw,
i farw ar y groes. (Iago Trichrug).

Cariad y Tad

Wrth gyfeirio at 'Dduw' mae Iesu'n golygu'r Tad yn arbennig. Mae'r adnod yn dweud bod y Tad yn fodlon aberthu ei unig Fab drosom ni. Mae'n ein hatgoffa o brawf Duw ar Abraham yn Genesis 22 ar fynydd Moreia. Doedd dim angen i dad Israel offrymu ei fab, nid dyna oedd dymuniad Duw, beth bynnag. Darllenwn yn gyson hefyd yn yr Hen Destament am bobloedd eraill yn offrymu plant i'w duwiau, arfer oedd yn ffiaidd yng ngolwg yr Arglwydd.

Dydy Duw ddim yn disgwyl i ni offrymu plant, ond roedd ef yn fodlon offrymu ei Fab ar Galfaria drosom ni. Mae cariad yn un o briodoleddau sylfaenol Duw, yn ôl y Beibl: **"Cariad yw Duw"** – dyna un o'r adnodau cyntaf a ddysgodd nifer ohonom pan oeddem yn blant.

Caru'r byd

Ystyr amlycaf 'y byd' yn yr adnod yma ydy'r holl ddynoliaeth, a hynny am dri rheswm. Mae 'pwy bynnag' yn amlwg yn cyfeirio at y ddynoliaeth, ac nid gweddill y greadigaeth. Mae'n golygu'r ddynoliaeth, er ei bod mewn cyflwr syrthiedig ac amherffaith. Er ein bod wedi'n difwyno a'n difetha gan bechod, mae Duw yn dal i garu gwaith ei ddwylo. Pe byddai arlunydd yn creu gwaith celfydd, a hwnnw'n cael ei fandaleiddio, byddai'n dal i garu ei waith, ac yn barod i'w adfer.

Ac nid dim ond cenedl Israel y daeth Crist i'w hachub, ond pobl o bob llwyth, gwlad, iaith a chenedl. Mae hyn yn cyd-fynd â chyd-destun y sgwrs gyda Nicodemus, lle mae Iesu'n pwysleisio nad oes a wnelo hiliogaeth naturiol â mynediad i deyrnas nefoedd.

Cariad yn rhoi

Wrth ddweud bod Duw y Tad wedi rhoi ei Fab, mae wedi rhoi yn hael, mae wedi rhoi ei unig Fab, y rhodd fwyaf a allai roi; ni allai roi mwy i ni. Mae unrhyw beth arall y gofynnwn amdano yn llai na'r rhodd y mae wedi ei rhoi eisoes! **"Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun….Ac os rhoddodd ei Fab, sut y gall beidio â rhoi pob peth i ni gydag ef?"** (Rhuf. 8:32).

Cariad pwrpasol

Roedd nod pendant i gariad Duw, sef ein hachub rhag distryw a'n harwain i fywyd tragwyddol.

Distryw

Mae'n amlwg o'r adnodau dilynol fod distryw yn golygu condemniad Duw, sef ei ddigofaint cyfiawn yn erbyn ein pechod. Ei nod oedd ein harbed rhag wynebu cosb dragwyddol uffern. Mae'r ffaith fod y distryw yn dragwyddol yn amlwg, gan ei fod yn cael ei gyferbynnu â 'bywyd tragwyddol'.

Bywyd tragwyddol

Mae'r gair tragwyddol yn cyfeirio at ***ansawdd*** y bywyd. Mae'r bywyd a gawn yng Nghrist yn fywyd o berthynas â Duw tragwyddol. Mae hefyd yn fywyd sydd yn dod oddi wrth Dduw. Nodweddion byw bywyd Duw yw: ystyried ein perthynas â Duw, ymddiried yn ei Fab, clywed Duw, gweld Duw, nesáu ato a'i garu. Y gwrthwyneb i'r bywyd yma yw marwolaeth ysbrydol.

Ond mae'r bywyd yn dragwyddol o ran ***maint*** hefyd. Does dim sôn am golli'r berthynas a gawn gyda Duw yn Iesu Grist. Mae'n fywyd sydd yn cychwyn yn y presennol ond yn para i dragwyddoldeb yn ddi-dor.